# Asesiad Strwythuredig 2020 – **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1939A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni chymerir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 14

Cynllunio gweithredol 16

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr 23

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 ar gyfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)[1]. Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Digwyddodd gwaith Asesu Strwythuredig eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achosir gan bandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi'r system ar gyfer yr hwrdd disgwyliedig o achosion COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys rhoi'r gorau i weithgarwch wedi'i gynllunio difrys a llacio targedau a threfniadau monitro ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso'r ystod eang o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i ymateb ar frys i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 a'r rheiny'n cael eu hategu gan ganllawiau chwarterol a oedd yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio'r ymateb i gam nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a symud tuag at adferiad graddol gwasanaethau rheolaidd.

4 Cynlluniwyd ein gwaith[2] yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig i sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Mae ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol[3] lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

5 Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a

[1] Awdurdod Iechyd Arbennig yw AaGIC sydd â rôl arweiniol o ran addysg, hyfforddiant, datblygu, a llunio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan AaGIC.

[2] Cafodd y broses o gyflawni ein gwaith ei chydlynu gydag adolygiad cyflym y tîm archwilio mewnol o lywodraethu sy'n cynnwys profi pellach ar reolaethau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

[3] Mae'r argymhellion blaenorol i'w gweld yn ein hadroddiad ar gyfer 2019.

- chynllunio strategol: i ategu'r ymateb parhaus i'r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

## Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **AaGIC wedi addasu ei drefniadau llywodraethu, rheoli risgiau a sicrwydd yn gyflym i ymateb yn effeithiol i COVID-19. Fe wnaeth y Bwrdd ac uwch arweinwyr ddangos arweinyddiaeth gref a chynnal trosolwg ar ansawdd a diogelwch hyfforddiant a lles staff. Mae trefniadau AaGIC ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol yn dal i weithio'n dda, er ein bod wedi canfod cyfle iddo adnabod ac adrodd ar gyfleoedd o ran costau a gwerth. Datblygodd AaGIC gynlluniau gweithredol effeithiol ac mae ganddo drefniadau cadarn i fonitro cynnydd ac adrodd arno. Mae wedi cofleidio ffyrdd newydd o weithio ac wedi bod yn arwain o ran datblygu adnoddau lles staff ar gyfer y GIG.**

7 Mae AaGIC wedi addasu'n dda i drefniadau llywodraethu diwygiedig, wedi dangos arweinyddiaeth dda trwy gydol yr argyfwng, ac wedi cynnal tryloywder o ran cynnal busnes y Bwrdd. Mae wedi bod yn cyfathrebu'n agored gyda'i randdeiliaid mewnol ac allanol ac mae'n cymryd y cyfle i ddysgu gwersi o ffyrdd newydd o weithio. Mae AaGIC yn parhau i gryfhau ei brosesau rheoli risgiau ac yn craffu'n rheolaidd ar ei gofrestrau risgiau corfforaethol a gweithredol, a oedd yn rhoi adlewyrchiad priodol ar y risgiau a achosir gan COVID-19. Trwy gydol y cyfnod hwn, fe barhaodd AaGIC i fod â throsolwg ar ansawdd a diogelwch ei hyfforddiant gan addasu dulliau sicrhau ansawdd lle'r oedd angen. Cafodd y Bwrdd sicrwydd ynghylch lles staff a pharhawyd i fonitro argymhellion archwilio mewnol ac allanol blaenorol. Serch hynny, mae cyfle i ystyried mynychder cyfarfodydd y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd.

8 Mae AaGIC yn cyflawni ei amcanion ariannol ac mae mewn sefyllfa dda i barhau i wneud hynny. Er nad oes gofyniad i AaGIC gyflawni gwelliannau o ran costau, byddai adnabod ac adrodd ar effeithlonrwydd ac arbedion yn gwella rheolaeth ariannol dda ymhellach ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol. Mae ganddo reolaethau ariannol cryf sydd wedi aros yn eu lle trwy gydol y cyfnod hwn o weithio o bell, gyda newidiadau priodol wedi'u gwneud mewn ymateb i'r heriau uniongyrchol a achosir gan COVID-19. Mae gwaith AaGIC i fonitro ac adrodd ar ei sefyllfa ariannol yn cefnogi trosolwg a chraffu gan y Bwrdd, ac mae'n glir, yn amserol ac yn graff.

9 Ymatebodd AaGIC yn dda i ganllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu ei weithrediadau ei hun a'i gyfraniad i'r ymateb cenedlaethol i COVID-19. Mabwysiadodd ddull pragmatig o flaenoriaethu ei raglen waith a chofleidiodd ffyrdd newydd o weithio. Parhaodd AaGIC i fod â ffocws ar les staff a bu'n arwain o ran datblygu adnoddau lles ar gyfer GIG Cymru. Cafodd cynllun gweithredol AaGIC ar gyfer chwarter 1 ei fonitro'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru, y Bwrdd ac uwch arweinwyr. Ar gyfer chwarter 2, mae AaGIC wedi datblygu fframwaith monitro clir.

# Argymhellion

10 Caiff argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr AaGIC i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2020**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Craffu ar y gofrestr risgiau corfforaethol**<br>A1 Canfuom fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn craffu ar y gofrestr risgiau corfforaethol yn sesiynau preifat y pwyllgor. Er mwyn tryloywder, oni bai bod risgiau'n rhai o natur sensitif, rydym yn argymell bod y gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hystyried yn sesiwn gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio. |
| **Gwelliannau o ran costau a gwerth**<br>A2 Er nad yw'n ofynnol i AaGIC gyflawni cynlluniau gwella costau ac er nad yw'n cyfeirio at unrhyw rai yn ei adroddiadau ariannol, byddai adnabod ac adrodd ar effeithlonrwydd ac arbedion yn gwella rheolaeth ariannol dda ymhellach ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol. Rydym yn argymell bod AaGIC yn ceisio adnabod cyfleoedd i wella costau a gwerth ac yn cofnodi'r rhain ac yn adrodd arnynt o fewn AaGIC ac yn fwy eang o'i waith. Byddai hyn hefyd yn dangos tystiolaeth glir o fanteision gweladwy ac yn cefnogi ymrwymiad i ddull un GIG. |

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu AaGIC i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn ac yntau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achoswyd gan y pandemig. Fe wnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol ynghylch creu map sicrwydd, adnabod bylchau o ran sicrwydd a chraffu, a gwella'i system rheoli risgiau.

12 Canfuom fod **AaGIC wedi addasu ei drefniadau llywodraethu, rheoli risgiau a sicrwydd yn gyflym i ymateb yn effeithiol i COVID-19. Fe wnaeth barhau i ddangos arweinyddiaeth gref a chynnal trosolwg ar ansawdd a diogelwch hyfforddiant a lles staff.**

### Cynnal busnes yn effeithiol

#### Mae AaGIC wedi addasu'n dda i drefniadau diwygiedig, wedi dangos arweinyddiaeth gref trwy gydol yr argyfwng, wedi cynnal tryloywder a chyfathrebu agored ac mae'n dysgu gwersi

13 Mae AaGIC wedi cynnal busnes a chyfathrebiadau agored a thryloyw er gwaethaf cyfyngiadau ar gyfarfodydd cyhoeddus. Ers mis Mawrth, nid yw AaGIC wedi gallu cynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus a symudodd yn dda at gyfarfodydd rhithwir, y cyntaf ym mis Mai, yr ail ym mis Mehefin, y trydydd ym mis Gorffennaf. Er mwyn sicrhau tryloywder parhaus, fe symudodd AaGIC yn gyflym i gyhoeddi crynodebau byr o gyfarfodydd o fewn 48 awr a chofnodion heb eu cadarnhau o fewn 14 diwrnod ar ei wefan. Ym mis Gorffennaf, fe wnaeth AaGIC ffrydio ei gyfarfod Bwrdd yn fyw am y tro cyntaf gan alluogi'r cyhoeddi i arsylwi unwaith eto. Er nad oedd unrhyw sylwedyddion yn bresennol o blith y cyhoedd, byddai unrhyw sylwedyddion yn gallu gofyn cwestiynau gan ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio, a'r rheiny'n cael sylw ar ôl y cyfarfod. Roedd papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar gael mewn da bryd hefyd ar y system electronig fewnol ar gyfer papurau'r Bwrdd ac ar wefan gyhoeddus AaGIC.

14 Canfu ein harsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau fod aelodau wedi addasu'n dda i'r amgylchedd rhithwir. Cafodd y cadeiryddion ac aelodau eu trwytho'n dda mewn moesau cyfarfodydd rhithwir ac fe ganiatawyd amser digonol ar gyfer cwestiynau a thrafodaethau. Er gwaethaf yr arsylwadau hynny, fe wnaethom nodi nad oedd cadeiryddion wastad yn gyson o ran pennu rheolau sylfaenol ac wrth i fwy o gyfarfodydd gael eu ffrydio'n fyw byddai'n arfer da pe bai rheolau sylfaenol yn cael eu pennu'n rheolaidd ar ddechrau'r holl gyfarfodydd.

15 Un o risgiau anorfod cynnal cyfarfodydd rhithwir yw materion TGCh a allai adael cyfarfodydd heb gworwm, gan amharu ar wneud penderfyniadau a chraffu. Mae AGIC wedi lliniaru'r risg hon yn briodol ac yn bragmatig trwy fod ag aelod wrth gefn ar gyfer pob pwyllgor, caniatáu i aelodau gyflwyno cwestiynau ymlaen llaw a sicrhau bod aelodau'n gallu ymuno â chyfarfodydd dros y ffôn os oes angen. Roedd cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd (ACA) ym mis

Gorffennaf heb gworwm dros dro ond fe ymdriniwyd â'r mater yn gyflym ac yn briodol.

16 Mae cyfathrebu'n allweddol yn ystod cyfnodau o argyfwng, yn enwedig o ystyried y cyd-destun gweithio o bell. Parhaodd AaGIC i gyfathrebu'n dda gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Bu'r Bwrdd yn cael papur briffio wythnosol, a oedd ar gael ar y fewnrwyd i staff. Bu staff yn cael cylchlythyrau rheolaidd hefyd. Ym mis Ebrill, cafodd y Prif Weithredwr ei secondio i Lywodraeth Cymru (gweler **paragraff 22**). Yn ei habsenoldeb parhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr i gynhyrchu cylchlythyron y Prif Weithredwr ar gyfer rhanddeiliaid a phartneriaid. Fe greodd AaGIC dudalen COVID-19 ar ei wefan i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr, hyfforddwyr a chyflogwyr am yr adnoddau a'r canllawiau a oedd ar gael. Mae AaGIC wedi bod yn cydweithio'n agos gyda chymheiriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon trwy gydol y cyfnod, sydd wedi bod yn fuddiol o ran meithrin perthnasoedd cryfach yn ôl AaGIC.

17 Mae trefniadau llywodraethu a pharhad busnes diwygiedig AaGIC wedi cefnogi prosesau penderfynu a chraffu. Fel sefydliadau eraill, mae AaGIC wedi addasu ei drefniadau llywodraethu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cafodd y Bwrdd weld y newidiadau arfaethedig cyn eu cymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Ar wahân i amrywio rheolau sefydlog i ganiatáu i gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau redeg yn rhithwir a hepgor y cyhoedd (yr unig weithredu gan y cadeirydd yn ystod y cyfnod hwn), fe wnaeth AaGIC gynnal busnes fel arfer gan mwyaf mewn perthynas â llywodraethu. Ni chafodd unrhyw bwyllgorau eu tynnu'n ôl ac fe wnaethant i gyd redeg fel a drefnwyd. Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd gyfarfod ychwanegol ym mis Mai i adolygu'r cyfrifon ac fe gytunodd ar ddyddiadau priodol ar gyfer cyflwyno cyfrifon archwiliedig a dogfennau cysylltiedig yng ngoleuni terfynau amser diwygiedig. Fe barhaodd sesiynau datblygu'r Bwrdd yn rhithwir ond gyda ffocws ar COVID-19.

18 Fe wnaeth agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau leihau a chanolbwyntio ar ymatebion i COVID-19 a busnes hanfodol. Cafodd eitemau ar y log gweithredu difrys eu gohirio tan ddyddiad addas yn y dyfodol a lle'r oedd yn briodol cafodd rhaglenni gwaith eu diweddaru. Er gwaethaf yr agendâu â ffocws wedi'i ailbennu, fe arhosodd hyd y cyfarfodydd yr arsylwom ni arnynt yn ddigyfnewid, gyda rhai'n para hyd at dair awr heb egwyl. Yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd rhithwir, byddem yn awgrymu cynnwys egwyl fer i helpu i osgoi blinder a gwella effeithiolrwydd.

19 Canfu ein harsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau fod yr aelodau'n ymgysylltu ac yn wybodus, gan ddarparu swyddogaeth graffu gadarn ochr yn ochr â chynnig arbenigedd a chefnogaeth. Mae'r Bwrdd ac aelodau annibynnol yn brofiadol, yn effeithiol ac yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm llywodraethu. Roedd papurau cyfarfodydd wedi'u hysgrifennu'n dda ac o ansawdd da. Dywedodd aelodau annibynnol y siaradom ni gyda nhw na fu unrhyw faterion gydag eglurder nac amseroldeb papurau.

20 Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau amserol ar ymateb AaGIC i COVID-19 ym mhob cyfarfod. Fe wnaeth y Bwrdd hefyd gadarnhau cynlluniau gweithredol a pharhau i gael adroddiadau ar berfformiad ac adroddiadau blynyddol yn ôl y drefn arferol.

Darparwyd diweddariadau mwy mynych trwy gydol brig y pandemig ar gyfer aelodau'r Bwrdd trwy bapurau briffio wythnosol ar COVID-19. Parhaodd y Cadeirydd â sgyrsiau rheolaidd ddwywaith yr wythnos gyda'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r is-gadeirydd, a sgyrsiau wythnosol gydag aelodau annibynnol eraill. Mae strwythur Bwrdd AaGIC yn gymharol fach, felly mae llifoedd gwybodaeth rhwng cadeiryddion pwyllgorau a'r Bwrdd wedi bod yn gymharol rwydd i'w rheoli. Roedd yr holl drefniadau hyn yn unol â'r cynllun parhad busnes (a drafodir ymhellach isod).

21 Ym mis Mawrth, rhoddodd AaGIC ei Gynllun Argyfwng a Pharhad Busnes ar waith am yr ail waith (y tro cyntaf oedd ym mis Chwefror mewn ymateb i lifogydd difrifol yn agos at bencadlys AaGIC yn Nantgarw). I reoli trefniadau yn ystod y pandemig, er bod penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud yng nghyfarfodydd wythnosol y Tîm Gweithredol, fe sefydlodd AaGIC Dîm Rheoli Argyfwng (TRhA) i ganolbwyntio ar yr ymateb gweithredol. Roedd y TRhA, dan gadeiryddiaeth y dirprwy Brif Weithredwr, yn cynnwys y Tîm Gweithredol ac uwch arweinwyr eraill a chyfarfu deirgwaith yr wythnos pan oedd yr argyfwng ar ei anterth. Roedd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun AaGIC ar gyfer ymateb i COVID-19, a gyflwynwyd yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru. Bu AaGIC yn adrodd yn wythnosol wrth Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn ei gynllun gweithredu COVID-19, y trefnwyd hefyd ei fod ar gael i aelodau'r Bwrdd. Mae AaGIC wedi myfyrio ar weithrediad y TRhA, a gafodd ei dynnu'n ôl ym mis Gorffennaf. Pan oedd yr argyfwng ar ei anterth roedd oddeutu 30 o gyfranogwyr, a oedd yn dda ar gyfer cyfathrebu. Fodd bynnag, erbyn myfyrio ar y peth, mae AaGIC yn teimlo y byddai grŵp llai, ar wahân o fudd i brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau critigol, gan ennyn ymgysylltiad eraill hefyd lle y bo angen.

22 Mae gan AaGIC Fwrdd sefydlog a chydnerth ac mae'n dal i fod â ffocws ar ddysgu'n barhaus. Canfu ein Hasesiad Strwythuredig yn 2019 fod y Bwrdd ac uwch arweinwyr yn dangos arweinyddiaeth gref a cholegaidd. Mae hyn yn dal i fod yn wir, gan fod yn fuddiol i AaGIC yn ystod yr argyfwng. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, cafodd Prif Weithredwr AaGIC ei secondio i Lywodraeth Cymru fel Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru. Fe reolodd AaGIC y newid hwn yn dda, gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr yn goruchwylio gweithrediadau o ddydd i ddydd. Nid oedd angen unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo. Tra'r oedd wedi'i secondio fe barhaodd y Prif Weithredwr i fynychu cyfarfodydd wythnosol y Tîm Gweithredol ac i gynnal sesiynau un-i-un rheolaidd gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr i gynnal rhywfaint o drosolwg. Ym mis Mai fe ymddeolodd y Cyfarwyddwr Nyrsio, ac wedi hynny aeth AaGIC ati'n gyflym i benodi Cyfarwyddwr newydd ar sail ran-amser, interim a ddechreuodd ym mis Mehefin.

23 Bu Bwrdd sefydlog gan AaGIC trwy gydol y pandemig, cafodd tri aelod annibynnol eu hailbenodi yn union cyn y pandemig (ym mis Chwefror) am gyfnodau sydd rhwng dwy a phedair blynedd. Fel a nodwyd yn gynharach, mae gan y Bwrdd drefniadau i sicrhau bod pwyllgorau'n dal i fod â chworwm a bydd is-gadeiryddion yn camu i'r adwy os nad yw'r cadeirydd ar gael. Mewn ymateb i'n hargymhelliad yn 2019, cynhaliwyd adolygiad o strwythurau'r Bwrdd a Phwyllgorau, a chafodd cynigion eu cyflwyno i'r Bwrdd a'u cymeradwyo ganddo ym mis Medi 2019, gyda

rheolau sefydlog yn cael eu diweddaru'n briodol ym mis Tachwedd 2019. Mae bwriad i adolygu strwythurau adrodd o fewn cyfarwyddiaethau dros y misoedd nesaf.

24 Mae ffocws AaGIC ar ddysgu'n barhaus wedi parhau trwy gydol y pandemig. Mae sesiynau datblygu'r Bwrdd wedi parhau ac wedi cael eu defnyddio fel fforwm i gofnodi gwersi a ddysgwyd. Yn ei gyfarfod datblygu'r Bwrdd ym mis Mehefin, cafodd y Bwrdd gyflwyniad am y 'normal newydd' mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a oedd yn rhoi sylw i gyfleoedd a gwersi a ddysgwyd mewn ymateb i COVID-19. Hefyd, mae cynllun chwarter 2 AaGIC yn dechrau archwilio sut y gallai AaGIC weithio'n wahanol, sefydlu ffyrdd newydd o weithio a'i rôl os bydd ail frig. Yn amlwg mae rhagor o waith i'w wneud ac mae'r sefyllfa'n newidiol, ond mae'n gadarnhaol bod AaGIC wedi dechrau'r broses hon.

25 Mae'r Cadeirydd wedi cynnal sgyrsiau gydag aelodau annibynnol am gryfderau a gwendidau trefniadau gweithio cyfredol a bydd ei ganfyddiadau'n cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau datblygu personol. Mae'r rhai y siaradon ni gyda hwy wedi enwi nifer o agweddau cadarnhaol o'r cyfnod hwn i'w dwyn ymlaen, er enghraifft gweithio'n rhithwir a gofyn cwestiynau cyn cyfarfodydd. Mae manteision anfwriadol wedi cael eu hadnabod hefyd, er enghraifft cyfarfodydd rhithwir yn teimlo fel bod ffocws mwy pendant iddynt. Mae'r un mor bwysig adnabod yr hyn nad yw'n gweithio cystal, megis bod yn well gan aelodau sesiynau datblygu'r Bwrdd a gynhelir wyneb yn wyneb.

26 Mae AaGIC yn rhoi ystyriaeth sylweddol i wersi a ddysgwyd dros y cyfnod hwn mewn gwahanol rannau o'r busnes. Rydym ni'n awgrymu y dylai ddwyn y gwersi hyn ynghyd i adnabod themâu cyffredin a helpu i rannu'r gwersi a ddysgwyd ganddo'n ehangach, yn fewnol ac yn allanol. Mae meysydd y gallai hynny fod o fudd iddynt yn cynnwys gweithio sefydliadol, trefniadau llywodraethu, gweithio gyda phartneriaid a rhedeg hyfforddiant.

## Rheoli risgiau

### Mae AaGIC yn parhau i gryfhau ei brosesau rheoli risgiau ac yn craffu'n rheolaidd ar ei gofrestrau risgiau corfforaethol a gweithredol, sy'n rhoi adlewyrchiad priodol ar y risgiau a achosir gan COVID-19

27 Fe ddiwygiodd AaGIC ei drefniadau rheoli risgiau i adlewyrchu'r risgiau a oedd yn cael eu hachosi gan COVID-19. Cafodd y gofrestr risgiau corfforaethol ei halinio i adlewyrchu'r risgiau a oedd yn dod i'r amlwg yn sgîl y pandemig, gan nodi saith maes risg allweddol a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â COVID-19. Ar wahân i risgiau coch, cafodd yr holl risgiau corfforaethol nad oeddent yn ymwneud â COVID-19 eu hisgyfeirio dros dro i sicrhau ffocws ar risgiau allweddol. Y saith maes risg sy'n ymwneud â COVID-19 yw:

- Effaith ar gynnydd/cwblhau addysg a hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr a hyfforddeion cyfredol.

- Effaith ar recriwtio i raglenni addysg a hyfforddiant a chyfraddau llenwi'r rhaglenni hynny yn y dyfodol.
- Amharu ar raglenni newid mawr sydd ar y gweill.
- Amharu ar gyflawni rhaglenni gwaith newydd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Goblygiadau ariannol.
- Effaith ar les staff AaGIC.
- Ffyrdd newydd o weithio.

28 Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y gofrestr risgiau corfforaethol am y tro cyntaf ym mis Ebrill yn ystod ei sesiwn breifat ac fe barhaodd i'w hadolygu yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn ystod y pandemig. Er bod hyn yn gadarnhaol, oni bai bod risgiau'n rhai o natur sensitif, er mwyn tryloywder, byddem yn awgrymu bod y gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hystyried yn sesiwn gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio. Ym mis Mawrth cafodd y Bwrdd asesiad lefel-uchel o'r risgiau a achosir gan COVID-19, a gafodd eu cynnwys yng nghynllun gweithredol chwarter 2 AaGIC. Mae'r Bwrdd hefyd i fod i gael y gofrestr risgiau corfforaethol ym mis Medi a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Hydref. Fel a argymhellwyd yn 2019, cytunwyd ar lefelau parodrwydd i dderbyn risg yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr ac mae'r gofrestr risgiau corfforaethol bellach yn dangos y parodrwydd i dderbyn pob risg. Ym mis Gorffennaf fe gynhaliodd AaGIC weithdy i adolygu a chytuno ar ei barodrwydd i dderbyn risg ar gyfer chwarter 2 ac i adolygu risgiau i gyflawni a chamau lliniaru.

29 Ar lefel weithredol, fe gynhaliodd AaGIC log risgiau COVID-19 sy'n bwydo i mewn i'r gofrestr risgiau corfforaethol. Cafodd hwn ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd gan aelodau o'r TRhA ac arweinwyr gweithredol. Mae fformat y log yn eglur a syml, gan grwpio risgiau yn ôl y saith maes risg a nodir uchod, yna nodi manylion y risgiau, camau lliniaru, cynnydd a pha un a ddylid uwchgyfeirio'r risg i'r gofrestr risgiau corfforaethol.

30 Mae'r rhan fwyaf o risgiau COVID-19 allweddol ar y gofrestr risgiau corfforaethol wedi cael eu hisgyfeirio erbyn hyn, ac eithrio risgiau sy'n gysylltiedig ag ail frig ac sy'n effeithio ar addysg. Wrth i drefniadau rheoli argyfwng gael eu tynnu'n ôl, bydd rheoli risgiau'n dychwelyd i drefniadau rheolaidd. Bydd y log risgiau COVID-19 yn aros yn ei le er y bydd yn cael ei alinio â chofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau. Bydd risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni cynllun gweithredol chwarter 2 yn cael eu rheoli o fewn cyfarwyddiaethau ac yn cael eu huwchgyfeirio yn ôl gweithdrefnau arferol.

31 Y llynedd fe wnaethom nifer o argymhellion ynghylch rheoli risgiau. Mae'n dda gweld bod AaGIC wedi rhoi'r rhain ar waith er gwaethaf yr amgylchiadau ac ym mis Mawrth, fe gyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ar gyfer ei adolygiad o reoli risgiau. Fel ninnau, adnabu'r tîm Archwilio Mewnol rai pwyntiau ar gyfer gwella gan gynnwys un argymhelliad blaenoriaeth uchel mewn perthynas â'r prosesau ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau rhwng cofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau a chorfforaethol. Bellach mae AaGIC wedi diweddaru ei bolisi rheoli risgiau, sy'n cynnwys prosesau clir ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio

risgiau. Cafodd y polisi wedi'i ddiweddaru ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

32 Yn 2019, canfuom fod AaGIC wedi datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB), ond bod angen iddo fapio sicrwydd a rheolaethau'n well i ategu FfSB. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei atal am y tro oherwydd COVID-19 ac mae i fod i ailddechrau yn chwarter 2.

33 Yn 2019, fe wnaethom nifer o argymhellion mewn perthynas â threfniadau llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch hefyd. Mae seiberddiogelwch yn risg goch ar gofrestr risgiau corfforaethol AaGIC. Cyfyngedig fu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion oherwydd diffyg adnoddau seiberddiogelwch arbenigol; fodd bynnag penodwyd Pennaeth Seiberddiogelwch ym mis Mehefin felly byddem yn disgwyl i argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith gael sylw yn gyflym. Fe wnaed peth cynnydd o ran cwblhau'r cynllun gweithredu ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data (GDPR) a Chofrestrau Asedau Gwybodaeth dan drefniadau interim. Unwaith y caiff y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth ei recriwtio (cafodd y swydd ei hysbysebu am y trydydd tro ym mis Mehefin) byddem yn disgwyl i'r cynnydd gyflymu. Mae'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth wedi datblygu dangosyddion perfformiad allweddol llywodraethu gwybodaeth. Mae'r grŵp hwn yn cwrdd yn chwarterol a bydd yn adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

## Systemau sicrwydd

### Fe barhaodd AaGIC i fod â throsolwg ar ansawdd a diogelwch ei hyfforddiant a lles staff, a pharhawyd i dracio argymhellion archwilio, er gwaethaf mynychder cyfyngedig cyfarfodydd y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd

34 Gan amddiffyn myfyrwyr a chleifion fel ei gilydd, mae Fframwaith Rheoli Ansawdd AaGIC yn sicrhau ansawdd a diogelwch addysg a hyfforddiant meddygol. Mae gan AaGIC Uned Ansawdd sy'n monitro hyfforddiant mewn nifer o ffyrdd megis ymweliadau sicrhau ansawdd ac arolygon cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) o hyfforddwyr a hyfforddeion meddygol, ac adborth rheolaidd gan arweinwyr addysg o fewn y GIG. Cyn i bandemig COVID-19 daro, roedd AaGIC wedi cymryd rhan yn ymarfer peilot sicrhau ansawdd y CMC gan gael adroddiad cadarnhaol am ei ddull o reoli ansawdd.

35 Trwy gydol y pandemig mae AaGIC wedi parhau i fonitro ansawdd a diogelwch yr hyfforddiant y mae'n ei gomisiynu ond mae wedi gorfod addasu, a bydd yn parhau i addasu, rhai o'i brosesau i wneud hynny. Er enghraifft, defnyddio ffynonellau tystiolaeth presennol ar gyfer sicrwydd ynghylch rheoli pryderon megis adborth ar leoliadau a gafwyd cyn y pandemig ac ymatebion i adroddiadau am risgiau. Fe gyflwynodd yr holl ddarparwyr addysg lleol (byrddau iechyd) hunanasesiadau cyn y pandemig a oedd yn rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu ac yn codi pryderon. Mae AaGIC yn archwilio elfennau o'r hunanasesiadau gyda'r darparwyr,

yn enwedig materion risg uchel. Mae AaGIC yn cynnal cyfarfodydd rhithwir a gynhelir gyda Chyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol bob tair wythnos, sy'n canolbwyntio'n rhannol ar seilwaith addysg i gyflawni ansawdd. Mae AaGIC wedi bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r CMC a chyrff proffesiynol eraill, megis y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB), trwy gydol y gyfnod hwn, hefyd yn enwedig mewn perthynas â threfniadau ar gyfer myfyrwyr a oedd yn cefnogi gwasanaethau rheng-flaen.

36 O ran cynnal sicrwydd ansawdd ar draws y GIG, fe gyfrannodd AaGIC at ddatblygu'r broses rheoli a sicrhau ansawdd ar gyfer ysbytai maes a phreifat i sicrhau eu bod yn gallu cael eu hystyried yn safleoedd hyfforddi. Roedd hefyd yn gyfrifol am fonitro cyfraddau salwch GIG Cymru a datblygu hyfforddiant gofal critigol ar gyfer y rhai a oedd yn newydd i ofal critigol neu'n dychwelyd i weithio mewn gofal critigol.

37 Y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd (ACA) sy'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd ansawdd ar gyfer y Bwrdd. Er ei fod wedi parhau i gynnal trosolwg ar faterion rheolaidd, mae wedi bod yn cael diweddariadau ar effaith y pandemig. Ym mis Ebrill cafodd bapurau ar yr effaith ar ddarparu addysg a hyfforddiant a rôl myfyrwyr o ran helpu yn ystod y pandemig. Yn dilyn hynny ym mis Gorffennaf cafodd drosolwg o ddull AaGIC o reoli ansawdd Addysg Feddygol Ôl-raddedig yn ystod y pandemig. Bydd y pwyllgor yn cael adroddiad pellach ar sicrhau ansawdd addysg ar gyfer meysydd amlbroffesiwn eraill yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

38 Mae'r Pwyllgor ACA yn cwrdd yn chwarterol felly dim ond dwywaith y mae wedi cwrdd ers dechrau'r pandemig (Ebrill a Gorffennaf). Dylai AaGIC adolygu pa un a yw'r mynychder hwn yn ddigonol ar gyfer busnes rheolaidd ac mewn cyfnod o argyfwng lle mae materion ansawdd a diogelwch yn hollbwysig. Mae'r papurau a gafwyd yng nghyfarfodydd mis Ebrill a mis Gorffennaf yn darparu gwybodaeth a sicrwydd eglur a chynhwysfawr; fodd bynnag, gallai'r pwyllgor fod wedi cael budd o gael papur mis Gorffennaf yn gynharach. Rydym hefyd yn nodi bod y rhan fwyaf o bapurau a gyflwynir i'r pwyllgor ACA wedi'u labelu'n rhai 'er gwybodaeth' heb ryw lawer o gwbl wedi'u labelu'n rhai ar gyfer sicrwydd, trafodaeth neu gymeradwyaeth a hoffem ofyn a yw hyn yn briodol.

39 Cafodd aelodau'r Bwrdd ddiweddariadau ar faterion gweithredol ac ansawdd a diogelwch trwy bapurau briffio wythnosol. Roedd diweddariadau'n cynnwys statws cyrsiau hyfforddi a chyfraniad AaGIC at leoli myfyrwyr a staff clinigol ar y rheng-flaen yn ystod yr ymateb i COVID-19.

40 Er nad yw'n ofynnol i AaGIC baratoi datganiad ansawdd blynyddol mae'n dda ei fod yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn 2020-21 i ddatblygu ei ddatganiad ansawdd blynyddol ei hun.

41 Mae gan AaGIC ffocws cryf ar les staff, y gwnaethom ei amlygu yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2019. Mae'r ffocws hwn wedi parhau trwy gydol y pandemig. Cafodd aelodau'r Bwrdd sicrwydd rheolaidd ynghylch lles staff trwy'r papurau briffio wythnosol ac yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am nifer yr aelodau o staff yr effeithiwyd arnynt gan COVID-19 (a oedd yn dangos symptomau ac yn hunanynysu), trosolwg o fentrau lles staff a

gwaith AaGIC i arwain ar adnoddau lles ar-lein ar draws y GIG cyfan. Ceir rhagor o fanylion am fentrau lles ym **mharagraffau 60 a 61**.

42 Trwy gydol y cyfnod hwn mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi parhau i gael yr offeryn tracio argymhellion archwilio i roi cymorth i graffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion. Cynhaliodd AaGIC adolygiad o systemau tracio ar draws GIG Cymru ac fe fabwysiadodd yr un arddull â'r offeryn tracio a ddefnyddir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Cyflwynwyd y fformat newydd hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Ebrill ac roedd yn cynnwys wyth argymhelliad, yr oedd pedwar ohonynt wedi'u cwblhau. Cafodd yr argymhellion o'n Hasesiad Strwythuredig yn 2019[4] ac argymhellion o nifer o adroddiadau archwilio mewnol eu hychwanegu'n amserol at yr offeryn tracio. Mae AaGIC wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2019 ond mae'r pandemig wedi arafu'r cynnydd gyda rhai argymhellion. Fe barhaodd y Pwyllgor Archwilio a Risg i gael adroddiadau archwilio mewnol lle'r oedd gwaith maes wedi cael ei gwblhau cyn y pandemig. Cafodd y Pwyllgor farn y Pennaeth Archwilio mewnol ac Adroddiad Blynyddol y tîm Archwilio Mewnol ar gyfer 2019-20 hefyd.

# Rheoli adnoddau ariannol

43 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol AaGIC, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol. Ni wnaethom unrhyw argymhellion yn y maes hwn yn ein gwaith y llynedd ac mae'n dda gennym nodi bod AaGIC wedi bwrw ymlaen â rhai pwyntiau dysgu a amlygwyd.

44 Canfuom fod **trefniadau AaGIC ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol yn parhau i weithio'n dda, er y byddai adnabod ac adrodd ar welliannau o ran costau a gwerth yn gwella rheolaeth ariannol dda ymhellach ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

### Mae AaGIC yn cyflawni ei amcanion ariannol ac mae mewn sefyllfa dda i barhau i wneud hynny ond mae potensial i adnabod ac adrodd ar welliannau o ran costau a gwerth

45 Cyflawnodd AaGIC ei ddyletswydd ariannol yn 2019-20 i fantoli'r cyfrifon yn ystod y flwyddyn, gyda thanwariant refeniw o £0.084 miliwn a sefyllfa mantoli'r cyfrifon ar gyfer gwariant cyfalaf. Fel oedd yn ofynnol, cyflwynwyd cynllun blynyddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.

[4] Daeth ymateb y rheolwyr i'n Hasesiad Strwythuredig yn 2019 i law'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Ebrill 2020.

46 Ar ddiwedd mis 5 mae ar y trywydd iawn i fantoli'r cyfrifon yn 2020-21. Er mai dim ond gwariant ychwanegol bach iawn a ragwelir o ganlyniad yn uniongyrchol i COVID-19, bu effeithiau mewn meysydd allweddol fel darparu hyfforddiant a chwblhau arholiadau lle mae gweithgareddau wedi cael eu hatal dros dro. Cynhaliodd AaGIC adolygiad manwl i ddeall y sefyllfa a bydd yn dychwelyd cyllid sydd dros ben i Lywodraeth Cymru, a thrwy weithio'n effeithiol gyda gwledydd cartref eraill a rheoleiddwyr fe adnabu ddatrysiadau i estyn cyfnodau hyfforddi ac astudio, a liniarodd risgiau o ran costau yn y dyfodol heb beryglu disgwyliadau o ran hyfforddiant a safonau proffesiynol. Mae AaGIC hefyd wedi adolygu ei bolisi dal arian parod yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu adnoddau i sicrhau nad yw arian parod yn cael ei dynnu i lawr cyn bod ei angen.

47 Er nad yw'n ofynnol i AaGIC gyflawni cynlluniau gwella costau ac er nad yw'n cyfeirio at unrhyw rai yn ei adroddiadau ariannol, byddai adnabod ac adrodd ar effeithlonrwydd ac arbedion yn gwella rheolaeth ariannol dda ymhellach ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol. Byddai cofnodi ac adrodd ar y gwelliant sy'n deillio o ran costau a gwerth (o fewn AaGIC ac efallai'n fwy eang o'i waith) hefyd yn dangos tystiolaeth glir o fanteision gweladwy ac ymrwymiad i ddull un GIG.

48 Gan edrych tua'r dyfodol, ar gyfer y cyfnod o 2020-2023 ymlaen mae'n ofynnol i AaGIC baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd. Mae eisoes wedi cyflwyno'i CTCI i Lywodraeth Cymru, er bod y broses gymeradwyo wedi'i hatal dros dro ar hyn o bryd a chynlluniau chwarterol yn cael eu cyflwyno yn lle hynny fel sy'n ofynnol. Mae'n dda gweld bod AaGIC wedi datblygu cynllun ariannol pum mlynedd o fewn y CTCI tair blynedd i adlewyrchu'r graddfeydd amser y mae rhaglenni cyfredol ac a ragwelir yn eu cymryd i gadarnhau eu hymrwymiad llawn o ran costau blynyddol. Mae ein hadran ar gynllunio gweithredol isod yn nodi mwy o fanylion am y cynlluniau chwarterol.

## Rheolaethau ariannol

### Mae rheolaethau ariannol cryf wedi aros yn eu lle trwy gydol y cyfnod hwn o weithio o bell gyda newidiadau priodol wedi'u gwneud mewn ymateb i'r heriau uniongyrchol a achosir gan COVID-19

49 Er gwaethaf yr heriau ychwanegol enfawr o ganlyniad i'r pandemig a phwysau gweithio o bell, fe gynhyrchodd AaGIC ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da o fewn terfyn amser gwreiddiol Llywodraeth Cymru, gan ddangos yn glir gadernid parhaus eu rheolaethau ariannol drwy'r cyfnod hwn, gan gynnwys gweithdrefnau cau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.

50 Ni wnaed unrhyw newidiadau i systemau a rheolaethau dros y cyfnod, nad yw'n annisgwyl o ystyried ei bod yn debygol y bydd codiadau bach iawn mewn costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â COVID-19. Mae AaGIC yn bwriadu rheoli'r costau hyn o fewn ei ddyraniad cyllid cyfredol ar gyfer 2020-21 a'u hadnabod â llaw yn

hytrach na thrwy godau ychwanegol yn y llyfr cyfrifon, sydd i'w weld yn briodol dan yr amgylchiadau.

51 Yn bennaf felly ar gyfer systemau a rheolaethau ariannol bu'n achos o fusnes fel arfer; fodd bynnag, lle y bo'n briodol mae AaGIC wedi gwneud newidiadau gofynnol i roi canllawiau Llywodraeth Cymru ar waith, er enghraifft diweddaru rheolau sefydlog mewn perthynas â thymhorau a phenodiadau aelodau annibynnol.

### Monitro ac adrodd

#### Mae monitro ac adrodd ariannol yn eglur, yn amserol ac yn gradd ac yn cefnogi trosolwg a chraffu gan y Bwrdd

52 Mae'r Bwrdd wedi parhau i gael adroddiadau ariannol amserol trwy gydol y cyfnod hwn. Ym mis Mehefin cafodd adroddiad ariannol mis 2 (Mai) ac ym mis Gorffennaf adroddiad ariannol mis 3 (Mehefin). Mae'r adroddiadau wedi'u halinio'n glir â'r adroddiadau ariannol misol i Lywodraeth Cymru sy'n dal i gael eu cyflwyno'n amserol ac yn unol â'r gofynion adrodd.

53 Mae'r adroddiadau ariannol yn glir, yn nodi'r sefyllfa gyfredol, rhagolygon hyd at ddiwedd y flwyddyn, esboniadau o amrywiannau yn y gyllideb ac, yn bwysig, newidiadau arfaethedig i'r cynllun yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i'r materion a risgiau a adnabuwyd. Mae adroddiad mis 3 yn nodi manylion y gwaith a wnaed mewn perthynas â llithriant mewn gwariant yn ystod y flwyddyn (gweler **paragraff 46**) o ganlyniad i COVID-19 a'r cam gweithredu a gynigir. Mae hyn yn ymateb i'r risgiau ariannol allweddol a adnabuwyd ar y log risgiau COVID-19 (oedi gyda rhaglenni addysg a hyfforddi, absenoldeb astudio a chyllidebau) a uwchgyfeiriwyd yn briodol i'r gofrestr risgiau corfforaethol.

## Cynllunio gweithredol

54 Fe wnaeth ein gwaith ystyried cynnydd AaGIC o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 a darparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar fusnes hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

55 Canfuom fod **AaGIC wedi datblygu cynlluniau gweithredol effeithiol a bod ganddo drefniadau cadarn i fonitro ac adrodd ar gynnydd. Mae wedi cofleidio ffyrdd newydd o weithio ac wedi bod yn arwain o ran lles staff yn genedlaethol.**

## Datblygu’r cynllun

### Fe ymatebodd AaGIC yn dda i ganllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu ei weithrediadau ei hun a’i gyfraniad i’r ymateb cenedlaethol

56 Cyflwynodd AaGIC ei gynlluniau gweithredol chwarter 1 a chwarter 2 i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiadau cyflwyno gofynnol. Roedd trefn cyfarfodydd y Bwrdd a dyddiadau cyflwyno’r cynllun gweithredol yn golygu bod cymeradwyaeth ffurfiol gan y Bwrdd ar gyfer y ddau gynllun yn ôl-weithredol. Fodd bynnag, cafodd y Bwrdd gyfle i wneud sylwadau ar gynlluniau drafft cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth yr amser byr ar gyfer paratoi cynlluniau leihau’r cyfle ar gyfer ymgysylltu allanol; fodd bynnag, cymerwyd cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a chasglu cudd-wybodaeth trwy grwpiau cymheiriaid cenedlaethol megis y grŵp cyfarwyddwyr cynllunio. Trwy gydol y pandemig mae AaGIC wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd â’i Fforwm Partneriaeth Lleol a chyda chyrff proffesiynol megis Cymdeithas Feddygol Prydain (CFP) a’r Coleg Nyrsio Brenhinol (CNB) pan oedd angen.

57 Roedd gofynion fframweithiau gweithredu chwarter 1 a 2 wedi’u teilwra tuag at fyrddau iechyd a gwasanaethau clinigol. Fe ymatebodd AaGIC i’r gofynion i adlewyrchu eu gweithrediadau eu hunain. Mae’r cynlluniau’n nodi sut y mae AaGIC wedi a sut y bydd yn cyfrannu at yr ymateb i COVID-19 trwy eu rhaglen gyflawni. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos sut yr ymatebodd AaGIC i ofynion y fframweithiau gweithredu.

**Arddangosyn 2: Ymateb AaGIC i ofynion fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru**

**Rheoli'r galw mewn perthynas â COVID-19**

Mae AaGIC wedi rheoli'r galw mewn perthynas â COVID-19 trwy gau ei swyddfeydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. O Chwarter 2, mae wedi caniatáu mynediad cyfyngedig at ei swyddfeydd.

Mae'r ddau gynllun gweithredol yn mynegi parodrwydd AaGIC i weithio gyda'r GIG ehangach i gefnogi'r ymateb i COVID-19 a chanfod cyfleoedd i gyfrannu at gynaliadwyedd ac arloesi o ran y gweithlu. Er enghraifft:

- sefydlodd Llywodraeth Cymru y grŵp Trosglwyddiad Nosocomiaidd a gweithgor Atal a Rheoli Heintiau i ddatblygu canllawiau ar faterion rheoli ac atal heintiau. Mae AaGIC yn aelod gweithredol o'r ddau grŵp, sy'n edrych yn benodol ar y gweithlu, hyfforddiant a strategaeth i leihau trosglwyddiad mewn cartrefi gofal.

Rhoddodd AaGIC gymorth i ddarparu gofal critigol mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys trwy:

- gael hyfforddiant gofal critigol i staff y GIG a oedd yn cael eu hail-leoli i feysydd newydd neu'r rhai a oedd yn dychwelyd i ymarfer;
- rhoi cyngor ac arweiniad ar gynlluniau ymchwydd i ystwytho capasiti gofal critigol;
- nodi lle'r oedd angen capasiti ychwanegol o ran gofal critigol, gan adnabod cyfleoedd i ail-leoli; a
- rhyddhau staff clinigol AaGIC i leihau eu sesiynau ar gyfer AaGIC a chynyddu eu sesiynau clinigol mewn lleoliadau gofal iechyd.

**Gwasanaethau hanfodol**

Mae'r cynlluniau'n cydnabod nad yw AaGIC yn darparu gwasanaethau clinigol hanfodol ond ei fod yn rhoi cymorth hanfodol i'r gweithlu ac yn darparu addysg a hyfforddiant hanfodol ar gyfer y gweithlu. Yn chwarter 1, fe ataliodd AaGIC beth o'i weithgarwch ITS dros dro i ganolbwyntio ar ei gyfraniad at yr ymateb i COVID-19. Mae cynllun chwarter 2 yn cynnwys ffocws cryfach o ran ble y gall AaGIC gefnogi 'gwasanaethau hanfodol', megis:

- arwain y gofynion o ran datblygu a hyfforddi'r gweithlu i gefnogi un llwybr canser a gwasanaethau diagnostig a delweddu;
- ailgychwyn y gofynion o ran cynllunio'r gweithlu a datblygu'r gweithlu ar gyfer y Rhwydwaith Trawma Mawr, gan ystyried effaith COVID-19; ac
- mae AaGIC mewn trafodaethau cynnar gyda Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu cynllun y gweithlu iechyd meddwl.

**Gwasanaethau rheolaidd**
Mae AaGIC wedi dehongli gwasanaethau rheolaidd fel ailddechrau ei weithgareddau rheolaidd. Mae'r cynlluniau'n nodi y bydd AaGIC yn gweithio gyda chyrff iechyd i ddeall eu cynlluniau ar gyfer ailsefydlu gwasanaethau rheolaidd a bydd wedyn yn asesu beth mae hyn yn ei olygu i addysg a hyfforddiant. Yn arbennig, byddant yn ystyried beth y mae hyn yn ei olygu ar gyfer lleoliadau a rhaglenni clinigol, a chapasiti'r gweithlu.

**Gofal sylfaenol**
Mae cynlluniau chwarter 1 a 2 yn mynegi bwriad AaGIC i roi cymorth i roi'r model ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol ar waith, gan gefnogi'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, gan gynnwys dwyn y gwersi a ddysgwyd o COVID-19 ymlaen i gynlluniau gwaith yn y dyfodol.

**Cydnerthedd gofal cymdeithasol**
Yn chwarter 2, mewn partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, fe wnaeth AaGIC ailsefydlu grŵp llywio strategaeth y gweithlu. Fe alluogodd hyn y grŵp i ailbennu ei ffocws ar flaenoriaethau gweithredu, i roi cyngor pellach i Lywodraeth Cymru ac ystyried cyfleoedd i gefnogi capasiti'r gweithlu. Mae AaGIC hefyd yn cefnogi cydnerthedd gofal cymdeithasol trwy:

- ddatblygu papur i ystyried sut y gall gefnogi'r pwysau cynyddol ar y sector cartrefi gofal o ganlyniad i COVID-19; a
- sicrhau bod gan gyflogeion gofal cymdeithasol fynediad at yr adnoddau lles cenedlaethol y mae wedi'u datblygu.

**Cyfathrebu cyhoeddus**
Nid yw AaGIC yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd fel cyrff iechyd eraill, ond mae cyfathrebu gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn dal i fod yn bwysig. Mae cynlluniau chwarter 1 a 2 yn nodi bwriad AaGIC i gynnal proses gyfathrebu reolaidd gyda'i staff, ei Bwrdd a'i rhanddeiliaid a chefnogi'r negeseuon diogelwch cenedlaethol am COVID-19.

Ffynhonnell yr arddangosyn: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gynlluniau gweithredol chwarter 1 a 2 AaGIC.

## Adnoddau i gyflawni'r cynllun

### Mabwysiadodd AaGIC ddull pragmatig o flaenoriaethu ei raglen waith, fe barhaodd i ganolbwyntio ar les staff, fe ymgymerodd â rôl arweiniol yn genedlaethol ar gyfer datblygu adnoddau lles, ac fe gofleidiodd ffyrdd newydd o weithio

58 Ym mis Mawrth, fe adolygodd AaGIC raglen waith ei CTCI 2020-2023 i sicrhau mai dim ond gweithgareddau hanfodol oedd yn cael eu cyflawni. Rhoddodd yr adolygiad hwn syniad clir i AaGIC o'r galw a'r cyflenwad o adnoddau i ymateb yn ystod y pandemig. Mabwysiadodd AaGIC ddull pragmatig o flaenoriaethu ei raglen waith. Cydnabu, ar gyfer rhai gweithgareddau, y byddai angen iddo weithio gyda byrddau iechyd, er bod hyn yn her o ystyried y pwysau a'r cyfyngiadau o ran amser mewn byrddau iechyd ar y pryd. Fel a nodwyd yn gynharach, wrth i gyrff iechyd weithio i ailddechrau darparu gwasanaethau rheolaidd â phwyll, bydd AaGIC yn gweithio gyda hwy i ddeall beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant, yn enwedig lleoliadau clinigol.

59 Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, cafodd y Bwrdd drosolwg o raglen waith AaGIC, a oedd yn nodi pa weithgareddau y byddid yn eu hatal dros dro, yn parhau â hwy, yn eu hailgyfeirio neu'n eu cyflymu i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Cyflwynwyd dogfen wedi'i diweddaru i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai. Roedd cynllun chwarter 1 yn crynhoi'r camau gweithredu allweddol ond nid oedd yn cynnwys y rhaglen waith; cafodd hwn ei atodi wrth y cynllun gweithredol ar gyfer chwarter 2.

60 Mae staff AaGIC wedi addasu'n dda i weithio o bell, sydd wedi bod yn ei le ers mis Mawrth. Mae rhan o'r llwyddiant hwn i'w briodoli i fentrau llesiant y mae AaGIC wedi'u rhoi yn eu lle. Er enghraifft, trwy greu cyfleoedd i gydweithwyr gysylltu'n anffurfiol trwy 'baneidiau rhithwir', cwisiau a sgyrsiau byrion ar ddiddordebau y tu allan i'r gwaith. Mae AaGIC wedi rhedeg tri arolwg bys ar y pwls i gasglu gwybodaeth am lesiant staff a bwletinau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff. Yn ogystal â monitro effaith COVID-19 ar staff, mae AaGIC wedi cynnal asesiadau risg o'r staff unigol sy'n wynebu'r risg fwyaf[5] ac wedi gwneud addasiadau angenrheidiol, yn ogystal ag annog staff i gymryd gwyliau blynyddol. Un o fanteision anfwriadol gweithio o bell yw bod y rhai a fu'n gweithio o bell yn flaenorol bellach yn teimlo'u bod yn fwy o ran o'r sefydliad. Bydd yn bwysig nad yw'r fantais hon yn cael ei cholli pan fo gweithio'n dychwelyd i'r 'normal newydd'.

61 Yn genedlaethol, un o amcanion strategol AaGIC yw cefnogi llesiant y gweithlu ar draws y GIG. YN ystod y pandemig mae AaGIC wedi bod yn un o gyfranwyr allweddol y Grŵp Cynllunio ac Ymateb ar gyfer Lleoli a Lles y Gweithlu (Cell y Gweithlu). Mae wedi bod yn arwain o ran datblygu'r adnoddau iechyd a lles COVID019 ar-lein ar gyfer staff y GIG. Mae'r adnoddau'n amrywio o arweinyddiaeth dosturiol, cymorth lles meddyliol a chyffredinol i gymorth ariannol a

[5] Er enghraifft staff o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, staff hŷn a beichiog a'r rhai â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes.

chymorth ar gyfer profedigaeth. Mae'r adnodd ar-lein hefyd yn cyfeirio at wefannau ac adnoddau lles gan gyrff iechyd ar draws GIG Cymru. Mae AaGIC wedi bod yn monitro mynediad at i adnodd lles: ar ddiwedd chwarter 1 roedd wedi cael ei gyrchu dros 70,000 o weithiau.

62 Mae AaGIC wedi cofleidio ffyrdd newydd o weithio, o ran sut y mae'n gweithredu fel sefydliad a sut y mae'n cefnogi ac yn darparu hyfforddiant. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r sefydliad wedi addasu i weithio o bell, wedi datblygu hyfforddiant rhithwir ac edi darparu adnoddau ar-lein ar draws y GIG. Mae cynllun gweithredol chwarter 2 yn adlewyrchu gwersi a ddysgwyd o COVID-19 a meysydd y mae AaGIC yn bwriadu eu datblygu ymhellach. Er enghraifft:

- arweinyddiaeth ddigidol – cyflymu cynlluniau i gryfhau arweinyddiaeth ddigidol. Mae AaGIC wedi recriwtio Pennaeth Gwasanaethau Digidol ac mae'n bwriadu recriwtio Cyfarwyddwr Digidol a fydd yn arwain datblygiad strategaeth ddigidol a TG.
- arweinyddiaeth glinigol – mae AaGIC wedi parhau i adeiladu ei borth arweinyddiaeth ddigidol ac i gwmpasu rhaglenni arweinyddiaeth a thalent newydd. O chwarter 2 mae'n bwriadu cyflymu cynlluniau i ddatblygu arlwy genedlaethol i ategu trefniadau lleol.
- ymgynghori a gwneud penderfyniadau clinigol o bell – o ystyried mai ymgynghori a gwneud penderfyniadau clinigol o bell fydd y ffordd ymlaen. Mae AaGIC mewn trafodaethau cynnar gyda gwasanaethau gofal heb ei drefnu, megis y tu allan i oriau, 111 ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i ddatblygu a ffurfioli llwybr gyrfa gyfan ar gyfer sgyrsiau dros y ffôn ac ymdrin â galwadau, gan symud ymlaen at ymgynghori a gwneud penderfyniadau clinigol o bell.
- gwyddor ymddygiadol – bydd AaGIC yn cynnal cyfres o ddosbarthiadau meistr rhithwir sy'n seiliedig ar ddull gwyddor ymddygiadol gan ddefnyddio Care Aims. Nod y dosbarthiadau meistr yw helpu i leihau'r risg y bydd gweithwyr proffesiynol yn dychwelyd i batrymau arfer cyn COVID-19 trwy hybu newid diwylliant tuag at gymryd risgiau mewn modd cadarnhaol.

## Monitro'r modd y cyflawnir y cynllun

### Cafodd cynllun chwarter 1 ei adolygu'n rheolaidd ac mae AaGIC wedi datblygu fframwaith monitro eglur ar gyfer chwarter 2

63 Cafodd dull AaGIC o fonitro cynllun gweithredol chwarter 1 ei arwain gan y gofynion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd cynllun gweithredol chwarter 1 yn cynnwys pum maes ffocws allweddol a phwyntiau gweithredu lefel uchel, a droswyd yn gynllun gweithredu COVID-19 AaGIC. Adroddwyd yn wythnosol wrth Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ac roedd y cynnydd yn cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol a'r TRhA. Yn ogystal â phapurau briffio wythnosol bu'r Bwrdd yn cael adroddiad bob deufis ar gynnydd. Ym mis Gorffennaf, cafodd y Bwrdd adroddiad perfformiad integredig chwarter 1 a oedd yn

cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin. Rhoddodd yr adroddiad perfformiad sylw i'r canlynol:

- perfformiad yn erbyn amcanion CTCI 2020-23;
- perfformiad corfforaethol yn unol â'r elfennau o'r fframwaith perfformiad integredig y cytunwyd arnynt;
- perfformiad mewn ymateb i COVID-19; a
- pherfformiad mewn perthynas â gweithgarwch a oedd wedi'i nodi yng nghynllun gweithredol chwarter 1.

64 Cafodd y trefniadau rheoli argyfwng eu tynnu'n ôl ym mis Gorffennaf, gan olygu mai yn ôl y trefniadau rheolaidd y bydd cynllun gweithredol chwarter 2 yn cael ei fonitro. Roedd adborth Llywodraeth Cymru ar gynllun chwarter 1 yn gadarnhaol gan mwyaf ond roedd yn dynodi bod perchnogaeth a graddfeydd amser ar gyfer y camau gweithredu'n gyfyngedig. Ar gyfer chwarter 2, mae AaGIC wedi datblygu fframwaith ar gyfer tracio cynnydd, ac fe gyflwynwyd hwn i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf ynghyd â'r cynllun ei hun. Ceir perchennog ar gyfer pob cam gweithredu, ond mae'r graddfeydd amser yn dal yn aneglur.

65 Fel a argymhellwyd yn 2019, mae AaGIC wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd. Cyn ei gwblhau mae AaGIC yn bwriadu diweddaru'r fframwaith i adlewyrchu effaith COVID-19 ar drefniadau rheoli perfformiad yn y dyfodol. Bydd AaGIC hefyd yn datblygu dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u halinio â'i Gynllun Tymor Canolig Integredig.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 3: ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A1 Craffu ar y gofrestr risgiau corfforaethol**<br>Canfuom fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn craffu ar y gofrestr risgiau corfforaethol yn sesiynau preifat y pwyllgor. Er mwyn tryloywder, oni bai bod risgiau'n rhai o natur sensitif, rydym yn argymell bod y gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hystyried yn sesiwn gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio. | Ceir rhagdybiaeth bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hystyried yn sesiwn gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Lle mae risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yr ystyrir ei bod o natur sensitif yna dim ond yn sesiwn breifat y pwyllgor y bydd hon yn cael ei hystyried gyda gweddill y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn cael ei ystyried yn y sesiwn gyhoeddus. | Ch3 o 2020-21 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A2** **Gwelliannau o ran costau a gwerth**<br>Er nad yw'n ofynnol i AaGIC gyflawni cynlluniau gwella costau ac er nad yw'n cyfeirio at unrhyw rai yn ei adroddiadau ariannol, byddai adnabod ac adrodd ar effeithlonrwydd ac arbedion yn gwella rheolaeth ariannol dda ymhellach ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol. Rydym yn argymell bod AaGIC yn ceisio adnabod cyfleoedd i wella costau a gwerth ac yn cofnodi'r rhain ac yn adrodd arnynt o fewn AaGIC ac yn fwy eang o'i waith. Byddai hyn hefyd yn dangos tystiolaeth glir o fanteision gweladwy ac yn cefnogi ymrwymiad i ddull un GIG. | Bydd arbediadau o ran costau'n cael eu codio ar wahân a bydd hynny'n ei gwneud yn haws adrodd yn rheolaidd arnynt. Bydd hyn yn dechrau yn ystod Ch3 blwyddyn ariannol 2020-21 gyda dadansoddiad ôl-weithredol yn cael ei gynnal ar gyfer 2 chwarter cyntaf y flwyddyn. Bydd cyfleoedd/asesiadau gwerth yn cael eu hymgorffori mewn achosion busnes lle y bo'n briodol ac yn bosibl. | Ch4 o 2020-21 | Cyfarwyddwr Cyllid |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.